**Cynllun Pontio Clwstwr Teulu Llangynwyd 2025-26**

**Gweledigaeth Cwricwlwm Teulu Llangynwyd**:

Datblygwn ymarferwyr **arloesol**, **arweiniol** sy'n cydweithio i ddatblygu'r addysgeg gorau posib ar gyfer **dysgwyr Teulu Llan**.
Cyd-ddatblygwn cwricwla **uchelgeisiol a chreadigol** sy'n berthnasol i'n dysgwyr gydag egwyddorion addysgeg cytûn.
Hyrwyddwn profiadau dysgu sy'n datblygu **dysgwyr iachus a mentrus** gan feithrin sgiliau angenrheidiol i ganiatáu unigolion **hyderus** ar hyd y llwybr dysgu.
Mireiniwn continwwm dysgu cynhwysol sy'n defnyddio dulliau asesu effeithiol i nodi a chefnogi cynnydd **pob unigolyn**.
Monitrwn prosesau cymedroli effeithlon sy'n hyrwyddo dilyniant **llwyddiannus i bawb** wrth symud drwy'r cyfnodau dysgu.
Magwn **ddinasyddion egwyddorol** sy'n ymfalchïo yn eu **cynefin, Cymru a'r iaith Gymraeg**.

Mae'r cynllun pontio hwn yn cynrychioli cytundeb cytûn rhwng yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
- Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
- Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd
- Ysgol Cynwyd Sant
- Ysgol y Ferch o'r Sger

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut mae'r ysgolion yn cydweithio er mwyn gwireddu'r gweledigaeth cytûn a'r amcanion a restrir isod.

Pwrpas y cynllun yw i amlinellu sut y

- bydd yr ysgolion yn cydgysylltu ac yn rheoli'r broses bontio
- bydd yr ysgolion yn sicrhau parhad dysgu yn gyffredinol drwy gynllunio'r cwricwlwm
- caiff cynnydd dysgwr unigol ei gefnogi wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- caiff anghenion dysgu a lles pob dysgwyr unigol eu cefnogi wrth iddyn nhw bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- bydd ysgolion yn adolygu ac yn monitro effaith y cynllun pontio o ran sut mae wedi helpu i sicrhau parhad dysgu a chefnogi cynnydd dysgwyr unigol

Adolygir y cynllun yn flynyddol gan bob ysgol.

Adolygiad diwethaf: Gorffennaf 2025
Dyddiad diweddaru: Medi 2025

Adolygiad nesaf: Gorffennaf 2026

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cwmpasu gwaith blwyddyn academaidd 2024-2025.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| P: Penaethiaid | PC: Pwyllgor Cwricwlwm | PL: Pwyllgor Lles | PM: Pwyllgorau MDaPh | ALNCo: Cydlynwyr ADY | TB: Tim bugeiliol |

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau a staffio | Amserlen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **1. Cydgysylltu a rheoli'r broses bontio** | 1.1 Calendr o weithgareddau pontio yn eu lle sydd ag ystod o weithgareddau dysgu, bugeiliol a lles.<br>• Tri diwrnod pontio ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6<br>• Dau diwrnod ar gyfer dysgwyr blwyddyn 5 ynghyd<br>• Cyfarfodydd trosi gwybodaeth – bugeiliol ac ADY | Hydref | P<br>TB<br>ALNCo |
| | 1.2 Tîm o staff yn eu lle ar draws pob ysgol sydd â chyfrifoldeb dros cefnogi'r broses trosglwyddo | Medi | TB<br>ALNCo |
| | 1.3 Mireinio'r taenlen gwybodaeth er mwyn coladu a rhannu gwybodaeth lles ac academaidd fesul dysgwr unigol | Tymor y Gwanwyn | TB<br>PC |
| **2. Sicrhau parhad dysgu a cyd-gynllunio continwwm clwstwr** | 2.1 Cyfarfod Penaethiaid tymor yr Hydref i werthuso gwaith 2024-25 a llunio cynllun eleni. | Medi | P |
| | 2.2 Cyfarfod Pwyllgor Cwricwlwm i gynllunio rhaglen y flwyddyn gyda ffocws ar werthuso defnydd y continwwm a pennu ffocws y MDaPh eleni.<br>• Mathemateg – ffocws ar rhannu arferion orau addysgeg a dulliau<br>• Gwydd a Thech – mireinio continwwm i sicrhau manylder digonol<br>• Ll,I a Ch – cynnydd o fewn ffurfiau ysgrifennu | Medi | PC |
| | 2.3 Pob ysgol yn defnyddio'r continwa gorffenedig wrth gynllunio gan sicrhau dilyniant sy'n unol â'r egwyddorion cynnydd. Pwyllgor Cwricwlwm yn rhannu arferion cynllunio ac ar ddefnydd pob continwwm yn dilyn adborth staff yr ysgol. | Tymhorol | Staff gyfan |
| | 2.6 Cyfarfod Pwyllgor Cwricwlwm i werthuso gwaith y flwyddyn yn dilyn mewnbwn gan staff | Gorffennaf | PC |
| **3. Cefnogi cynnydd dysgwyr unigol** | 3.1 Pwyllgor Cwricwlwm yn gwerthuso cyfundrefnau cyfarfodydd cynnydd yr haf gan lunio canllawiau cytûn ar gyfer eleni er mwyn i bob ysgol feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws y continwa sydd ar waith. | Tymhorol | PC<br>UAM<br>Staff gyfan |
| | 3.2 Pob ysgol yn unigol yn galluogi staff i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl asesu yn effeithiol gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ymhlith staff. | Ionawr - Mehefin | P |
| | 3.3 Pwyllgor Cwricwlwm yn adrodd yn ôl ar gyfundrefnau cynllunio ac asesu er mwyn adnabod arferion orau. Archwilio i ddata academaidd gellid eu rhannu o un flwyddyn i'r llall er mwyn caniatáu cynllunio effeithiol ar gyfer cynnydd | Ebrill - Mehefin | PC<br>UAM |
| | 3.4 Parhau i ddatblygu a chysoni prosesau cyfeirio er mwyn sicrhau bod gwybodaeth cynhwysfawr am bob dysgwr yn cael ei drosi o flwyddyn i flwyddyn | Tymhorol | TB<br>ALNCo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4. Cefnogi anghenion a lles dysgwyr unigol** | 4.1 Pwyllgor llesiant i barhau i gyfarfod er mwyn cysoni arferion orau er mwyn hyrwyddo lles, phresenoldeb, cefnogaeth i ddysgwyr BESD<br><br>4.2 Cyfarfodydd ALNCo yn rhoi cyfle i rannu arferion orau a chydweithio ar gyfundrefnau cyfeirio a chefnogaeth i ddysgwyr unigol<br><br>4.3 Cynllun gweithgareddau penodol fel rhan o rhaglen Camu i Langynwyd ar gyfer dysgwyr ag anghenion<br><br>4.4 Staff perthnasol yn cyfrannu at adolygiadau yn rheolaidd yn unol â ddeddf ADY gyda'r wybodaeth yn ffurfio rhan o gyfundrefnau pontio llwyddiannus a chynorthwyo cynllunio dysgu pwrpasol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.<br><br>4.5 Hyfforddiant parhaus i staff er mwyn darparu her a chymorth ychwanegol i ddysgwyr penodol, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill (rhannu adnoddau/cyflwyniadau yn ôl yr angen) | Tymhorol<br><br><br>Tymhorol<br><br><br>Parhaus<br><br><br>Tymor yr Haf<br><br><br><br>Parhaus | P<br>PL<br><br>TB<br>ALNCo<br><br>ALNCo<br><br><br>P<br>ALNCo<br><br><br>P<br>ALNCo |
| **5. Adolygu a monitro effaith y cynllun bontio** | 5.1 Cyfarfodydd Penaethiaid wedi'u hamserlenni bob mis gydag agenda a chofnodion<br><br>5.2 Cyfarfodydd Pwyllgor Cwricwlwm wedi'u hamserlenni bob tymor gydag agenda a chofnodion<br><br>5.3 Adolygiad blynyddol o'r rhaglen bontio<br><br>5.4 Adolygiad blynyddol o'r cynllun pontio cwricwlaidd<br><br>5.5 Adolygiad blynyddol o wariant GAD (PDG) | Parhaus<br><br>Tymhorol<br><br><br>Mehefin<br><br>Mehefin<br><br>Mawrth | P<br><br>P<br>PC<br><br>TB<br><br>PC<br><br>P / TB |